Nid yw'r trefniadau statudol hyn wedi eu hariannu, Senedd y Deyrnas Unedig sy'n diwallu costau'r buddion bob blwyddyn. Cynyddir pensiynau sy'n daladwy o dan classic, premium, classic plus, nuvos ac alpha yn flynyddol yn unol â deddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Parhaodd aelodau'r PGPGS a oedd o fewn 10 mlynedd o'u hoedran ymddeol arferol ar 1 Ebrill 2012 yn y PGPGS ar ôl 1 Ebrill 2015. Bydd y rhai a oedd rhwng 10 mlynedd a 13 mlynedd a 5 mis o'u hoedran ymddeol arferol ar 1 Ebrill 2012 yn ymuno ag alpha rhywbryd rhwng 1 Mehefin 2015 a 1 Chwefror 2022. Mae buddiannau PGPGS pob aelod sydd yn newid i alpha yn cael eu 'bancio', gyda buddiannau blaenorol y rhai yn un o'r adrannau cyflog terfynol y PGPGS yn seiliedig ar eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael alpha. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnir ar gyfer swyddogion yn dangos pensiwn adeiladwyd yn PGPGS neu alpha – fel y bo'n briodol. Lle mae gan y swyddog fuddiannau yn y PGPGS ac alpha y swm a ddyfynnir yw gwerth cyfunol eu buddiannau yn y ddau gynllun.) Gall aelodau a ymaelododd â'r cynllun o fis Hydref 2002 ddewis rhwng ymaelodi â'r trefniant budd diffiniedig priodol neu ymaelodi â phensiwn rhanddeiliad 'pwrcasu ariannol' gyda chyfraniad ystyrlon gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth).

Pennir cyfraniadau'r cyflogai yn ddibynnol ar eu cyflog ac maent yn amrywio rhwng 3.00% ac 8.05% o'r enillion pensiynadwy ar gyfer classic (ac aelodau alpha oedd yn aelodau classic yn union cyn ymuno ac alpha) a rhwng 4.60% ac 8.05% ar gyfer premium, classic plus, nuvos a holl aelodau eraill alpha. Bydd buddion y cynllun classic yn cronni ar raddfa 1 rhan mewn 80 o'r cyflog pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, mae cyfandaliad sy'n gywerth â thair blynedd o bensiwn dechreuol yn daladwy adeg ymddeol. Ar gyfer premium, bydd buddion yn cronni ar raddfa 1 rhan mewn 60 o'r enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i classic, ni cheir

Pension benefits are provided through the Civil Service pension arrangements. From 1 April 2015 a new pension scheme for civil servants was introduced – the Civil Servants and Others Pension Scheme or alpha, which provides benefits on a career average basis with a normal pension age equal to the member's State Pension Age (or 65 if higher). From that date all newly appointed civil servants and the majority of those already in service joined alpha. Prior to that date, civil servants participated in the Principal Civil Service Pension Scheme (PCSPS). The PCSPS has four sections: 3 providing benefits on a final salary basis (classic, premium or classic plus) with a normal pension age of 60; and one providing benefits on a whole career basis (nuvos) with a normal pension age of 65.

These statutory arrangements are unfunded with the cost of benefits met by monies voted by Parliament each year. Pensions payable under classic, premium, classic plus, nuvos and alpha are increased annually in line with Pensions Increase legislation. Existing members of the PCSPS who were within 10 years of their normal pension age on 1 April 2012 remained in the PCSPS after 1 April 2015. Those who were between 10 years and 13 years and 5 months from their normal pension age on 1 April 2012 will switch into alpha sometime between 1 June 2015 and 1 February 2022. All members who switch to alpha have their PCSPS benefits 'banked', with those with earlier benefits in one of the final salary sections of the PCSPS having those benefits based on their final salary when they leave alpha. (The pension figures quoted for officials show pension earned in PCSPS or alpha – as appropriate. Where the official has benefits in both the PCSPS and alpha the figure quoted is the combined value of their benefits in the two schemes.) Members joining from October 2002 may opt for either the appropriate defined benefit arrangement or a 'money purchase' stakeholder pension with an employer contribution (partnership pension account).

Employee contributions are salary-related and range between 3.00% and 8.05% of pensionable earnings for classic (and members of alpha who were members of classic immediately before joining alpha) and between 4.60% and 8.05% for premium, classic plus, nuvos and all other members of alpha. Benefits in classic accrue at the rate of 1/80th of final pensionable earnings for each year of service. In addition, a lump sum equivalent to three years initial pension is payable on retirement. For premium, benefits accrue at the rate of 1/60th of final pensionable earnings for each year of service. Unlike classic, there is no automatic lump sum. Classic plus is essentially a hybrid with benefits for service

cyfandaliad awtomatig. Yn ei hanfod, mae classic plus yn gynllun cymysg, gyda buddion am wasanaeth cyn 1 Hydref 2002 wedi eu cyfrifo'n fras megis classic, a buddion am wasanaeth o Hydref 2002 wedi eu cyfrif megis premium. Yn nuvos, mae aelod yn adeiladu pensiwn sydd wedi ei seilio ar ei gyflog pensiynadwy yn ystod cyfnod ei aelodaeth o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth), caiff cyfrif pensiwn cyflogadwy'r aelod ei gredydu â 2.3% o gyflog pensiynadwy'r flwyddyn gynllun honno a chaiff y pensiwn cronedig ei uwchraddio yn unol â deddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Mae buddiannau alpha yn cronni yn yr un modd â nuvos ac eithrio bod y gyfradd cronni yn 2.32%. Ym mhob achos, gall aelodau ddewis ildio (cyfnewid) pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a osodir gan Ddeddf Cyllid 2004.

Trefniant pensiwn rhanddeiliad yw'r cyfrif pensiwn partneriaeth. Bydd y cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol rhwng 8% a 14.75% (gan ddibynnu ar oedran yr aelod) i mewn i gynnyrch pensiwn rhanddeiliad a ddewisir gan y cyflogai o banel o ddarparwyr. Nid oes rhaid i'r cyflogai gyfrannu, ond lle byddant yn cyfrannu, bydd y cyflogwr yn cyfrannu'n gyfatebol hyd at 3% o'r cyflog pensiynadwy (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Bydd cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.5% pellach o gyflog pensiynadwy er mwyn talu am sicrwydd budd risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn gwasanaeth ac ymddeoliad ar sail salwch).

Y pensiwn cronedig a nodir yw'r pensiwn y mae hawl gan yr aelod i'w dderbyn pan fydd yn cyrraedd oedran ymddeol, neu'n syth wedi iddo beidio â bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os bydd eisoes wedi cyrraedd yr oedran ymddeol. Yr oedran ymddeol yw 60 ar gyfer classic, premium a classic plus, a 65 ar gyfer aelodau nuvos, a'r uchaf o 65 neu'r Oedran Ymddeol Statudol ar gyfer aelodau alpha. (Mae'r symiau pensiwn a ddyfynnir ar gyfer swyddogion yn dangos pensiwn a enillwyd yn PGPGS neu alpha – fel y bo'n briodol. Lle bo gan y swyddog buddiannau yn PGPGS ac alpha y swm a ddyfynnir yw gwerth cyfunol eu buddiannau yn y ddau gynllun, ond nodir gallai rhan o'r pensiwn hwnnw fod yn daladwy o wahanol oedrannau.)

Ceir rhagor o wybodaeth am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar y wefan www.civilservicepensionscheme.org.uk

before 1 October 2002 calculated broadly as per classic and benefits for service from October 2002 worked out as in premium. In nuvos a member builds up a pension based on his pensionable earnings during their period of scheme membership. At the end of the scheme year (31 March) the member's earned pension account is credited with 2.3% of their pensionable earnings in that scheme year and the accrued pension is uprated in line with Pensions Increase legislation. Benefits in alpha build up in a similar way to nuvos, except that the accrual rate is 2.32%. In all cases members may opt to give up (commute) pension for a lump sum up to the limits set by the Finance Act 2004.

The partnership pension account is a stakeholder pension arrangement. The employer makes a basic contribution of between 8% and 14.75% (depending on the age of the member) into a stakeholder pension product chosen by the employee from a panel of providers. The employee does not have to contribute, but where they do make contributions, the employer will match these up to a limit of 3% of pensionable salary (in addition to the employer's basic contribution). Employers also contribute a further 0.5% of pensionable salary to cover the cost of centrally-provided risk benefit cover (death in service and ill health retirement).

The accrued pension quoted is the pension the member is entitled to receive when they reach pension age, or immediately on ceasing to be an active member of the scheme if they are already at or over pension age. Pension age is 60 for members of classic, premium and classic plus, 65 for members of nuvos, and the higher of 65 or State Pension Age for members of alpha. (The pension figures quoted for officials show pension earned in PCSPS or alpha – as appropriate. Where the official has benefits in both the PCSPS and alpha the figure quoted is the combined value of their benefits in the two schemes, but note that part of that pension may be payable from different ages.)

Further details about the Civil Service pension arrangements can be found at the website www.civilservicepensionscheme.org.uk

Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod

Ystyr Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (GTGAP) yw'r gwerth cyfalaf wedi ei asesu gan actwari o fuddion cynllun pensiwn sydd wedi eu cronni gan aelod ar adeg benodol mewn amser. Y buddion y rhoddir gwerth arnynt yw buddion cronedig yr aelod a phensiwn cymar amodol sy'n daladwy o'r cynllun. Mae GTGAP yn daliad a wneir gan gynllun pensiwn neu drefniant er mwyn sicrhau buddion pensiwn mewn cynllun pensiwn neu drefniant arall lle bydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronnwyd yn y cynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddion y mae'r unigolyn wedi eu cronni o ganlyniad i gyfanswm eu haelodaeth o'r cynllun pensiwn, ac nid yn unig eu gwasanaeth mewn swyddogaeth hŷn y mae'r datgeliad yn berthnasol iddi.

Mae'r ffigurau yn cynnwys gwerth unrhyw fudd pensiwn mewn cynllun arall neu drefniant y mae'r aelod wedi ei drosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fudd pensiwn arall a gronnir i'r aelod o ganlyniad i'r ffaith ei fod wedi pwrcasu budd pensiwn ychwanegol ar ei gost ei hun. Cyfrifir GTGAPau yn unol â'r Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (fel y'u diwygiwyd) 2008, ond nid ydynt yn ystyried unrhyw wir ostyngiad neu ostyngiad potensial i fudd-daliadau sy'n deillio o'r Dreth Lwfans dros Oes a allai fod yn daladwy pan gymerir budd-daliadau pensiwn.

Cynnydd gwirioneddol mewn GTGAP

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn GTGAP sydd wedi ei ariannu gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd yn y pensiwn cronedig oherwydd chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun pensiwn neu drefniant arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio cyffredin y farchnad ar gyfer cychwyn a diwedd y cyfnod.

Rhwymedigaethau pensiwn

Telir i'r Tâl-feistr Cyffredinol symiau priodol i gynrychioli rhwymedigaethau cronedig Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Ceir rhagor o fanylion yn yr Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth ac yn nodyn 1.8 i'r cyfrifon.

Cash Equivalent Transfer Values

A Cash Equivalent Transfer Value (CETV) is the actuarially assessed capitalised value of the pension scheme benefits accrued by a member at a particular point in time. The benefits valued are the member's accrued benefits and any contingent spouse's pension payable from the scheme. A CETV is a payment made by a pension scheme or arrangement to secure pension benefits in another pension scheme or arrangement when the member leaves a scheme and chooses to transfer the benefits accrued in their former scheme. The pension figures shown relate to the benefits that the individual has accrued as a consequence of their total membership of the pension scheme, not just their service in a senior capacity to which disclosure applies.

The figures include the value of any pension benefit in another scheme or arrangement which the member has transferred to the Civil Service pension arrangements. They also include any additional pension benefit accrued to the member as a result of their buying additional pension benefits at their own cost. CETVs are worked out in accordance with The Occupational Pension Schemes (Transfer Values) (Amendment) Regulations 2008 and do not take account of any actual or potential reduction to benefits resulting from Lifetime Allowance Tax which may be due when pension benefits are taken.

Real increase in CETV

This reflects the increase in CETV that is funded by the employer. It does not include the increase in accrued pension due to inflation, contributions paid by the employee (including the value of any benefits transferred from another pension scheme or arrangement) and uses common market valuation factors for the start and end of the period.

Pension liabilities

Payment is made to the Paymaster General of such sums as may be appropriate as representing accruing liabilities of the Principal Civil Service Pension Scheme. Further details are included in the Remuneration Report and note 1.8 to the accounts.

Adroddiad staff

Demograffeg oedran/rhyw'r gweithlu

Oedran cyfartalog swyddogion Comisiynydd y Gymraeg ar 31 Mawrth 2017 oedd 36 mlwydd oed (31 Mawrth 2016: 36 mlwydd oed).

Crynhoir demograffeg rhywedd y cyfarwyddwyr a'r swyddogion ar 31 Mawrth 2017 yn y tabl isod:

	31 Mawrth 2017		31 Mawrth 2016	
	Gwryw	**Menyw**	Gwryw	Menyw
	%	**%**	%	%
Comisiynydd a'r Cyfarwyddwyr	**33.3**	**66.7**	33.3	66.7
Swyddogion eraill	**32.5**	**67.5**	37.5	62.5
Cyfanswm	**32.6**	**67.4**	37.3	62.7

Rheoli absenoldeb a phresenoldeb

Cyfanswm y diwrnodau gwaith a gollwyd drwy absenoldeb salwch am y cyfnod 1 Ebrill 2016 hyd at 31 Mawrth 2017 oedd 139.5 (2015-16: 271.0).

O'r diwrnodau gwaith a gollwyd drwy salwch, roedd 100% (2015-16: 66%) ohonynt oherwydd absenoldeb tymor byr a 0% (2015-16: 34%) oherwydd absenoldeb hirdymor. Diffiniad absenoldeb hirdymor yw absenoldeb o fwy nag 20 diwrnod am yr un rheswm.

Cyfartaledd y diwrnodau gwaith a gollwyd fesul pen (cywerth â llawn amser) oedd 3.1 (2015-16: 5.6) a hynny wedi ei seilio ar 45.4 [1] aelod o staff cywerth â llawn amser (2015-16: 48.0 [1]).

Trosiant staff

Roedd cyfradd trosiant staff yn 2016-17 yn 14.5% (2015-16: 6.2%).

Cofrestr rhoddion

Mae gan y Comisiynydd gofrestr rhoddion. Nid oes unrhyw eitem a gofnodwyd yn ystod y flwyddyn yn cael ei hystyried o bwys materol fel y bo angen ei chynnwys yn y datganiadau ariannol hyn.

[1] At bwrpas y datgeliad mae aelodau staff cywerth â llawn amser yn cynnwys Comisiynydd y Gymraeg a 44.4 swyddog cywerth â llawn amser (2015-16: 47.0)

Staff report

Age/sex demography of workforce

The average age of the Welsh Language Commissioner's workforce on 31 March 2017 was 36 years (31 March 2016: 36 years).

The gender demography of the directors and officers on 31 March 2017 is summarised in the table below.

	31 March 2017		31 March 2016	
	Male	**Female**	Male	Female
	%	**%**	%	%
Commissioner and Directors	**33.3**	**66.7**	33.3	66.7
Other officers	**32.5**	**67.5**	37.5	62.5
Total	**32.6**	**67.4**	37.3	62.7

Managing absence and attendance

The total number of work days lost through sickness absence for the period 1 April 2016 to 31 March 2017 was 139.5 (2015-16: 271.0).

Of the work days lost through sickness 100% (2015-16: 66%) of them were due to short-term sickness and 0% (2015-16: 34%) were lost due to long-term sickness. Long-term absence means an absence of more than 20 days for the same reason.

The average work days lost per head (full-time equivalent) was 3.1 (2015-16: 5.6) based on 45.4 [1] full-time equivalent members of staff (2015-16: 48.0 [1]).

Staff turnover

The staff turnover rate in 2016-17 was 14.5% (2015-16: 6.2%).

Gifts register

The Commissioner operates a gifts register. No item noted during the year is considered of material interest for inclusion in these financial statements.

[1] For the purpose of disclosure the full-time equivalent members of staff comprise the Welsh Language Commissioner and 44.4 full-time equivalent officers (2015-16: 47.0)

Niferoedd swyddogion a chostau perthnasol

	2016-17 £000	2015-16 £000
Cyflogau (cytundebau parhaol)	**1,410**	1,521
Cyflogau (cytundebau cyfnod penodol)	**214**	193
Costau nawdd cymdeithasol	**136**	116
Costau pensiwn	**340**	356
	2,100	2,186
Ffioedd aelodau o bwyllgorau (1)	**5**	10
Costau swyddogion drwy asiantaeth	**7**	-
Cyfanswm	**2,112**	2,196

Niferoedd swyddogion	**2016-17**	2015-16
Comisiynydd y Gymraeg	**1.0**	1.0
Swyddogion a gyflogir ar gytundebau parhaol	**37.4**	40.3
Swyddogion a gyflogir ar gytundebau cyfnod penodol	**7.0**	6.7
Swyddogion drwy asiantaeth	**0.2**	0.0
Nifer cyfartalog (2)	**45.6**	48.0
Aelodau o bwyllgorau (1)	**9**	9

1 – Mae'r aelodau yn cynnwys 5 aelod o'r Panel Cynghori (2015-16: 5) a 4 aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Risg (2015-16: 4). Talwyd ffioedd o £256 y dydd i'r Cadeirydd a £198 y dydd i aelodau eraill. Ildiodd Nigel Annett ei ffi am fynychu'r Pwyllgor Archwilio a Risg.

2 – Nifer cywerth â llawn amser a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn.

Ceir gwybodaeth am fuddiannau cyflog a phensiwn y Comisiynydd a swyddogion hŷn y Comisiynydd ar dudalennau 124 i 136.

Officer numbers and related costs

	2016-17 £000	2015-16 £000
Salaries (permanent contracts)	**1,410**	1,521
Salaries (fixed term contracts)	**214**	193
Social security costs	**136**	116
Pension costs	**340**	356
	2,100	2,186
Committee members' fees (1)	**5**	10
Agency staff costs	**7**	-
Total cost	**2,112**	2,196

Staff numbers	**2016-17**	2015-16
Welsh Language Commissioner	**1.0**	1.0
Officers employed on permanent contracts	**37.4**	40.3
Officers employed on fixed term contracts	**7.0**	6.7
Agency staff	**0.2**	0.0
Average numbers (2)	**45.6**	48.0
Committee members (1)	**9**	9

1 – Comprised of 5 members of the Advisory Panel (2015-16: 5) and 4 members of the Audit and Risk Committee (2015-16: 4). The fees paid were £256 per day for the Chair and £198 per day for other members. Nigel Annett waived his fee for attending the Audit and Risk Committee.

2 – Full Time Equivalents employed during the year.

The salary and pension entitlements of the Commissioner and officers in the most senior positions are included on pages 125 to 137.

Pensiynau

Ceir manylion pensiynau ar dudalennau 130 i 136.

Mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PGPGS) yn gynllun buddiannau diffiniedig heb ei ariannu ar gyfer nifer o gyflogwyr ac o ganlyniad nid oes modd i Gomisiynydd y Gymraeg adnabod ei chyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol. Pennodd actiwari'r cynllun ei werth ar 31 Mawrth 2012. Mae gwybodaeth ar gael yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Civil Superannuation (www.civilservice.gov.uk/pensions).

Ar gyfer 2016-17, roedd cyfraniadau'r cyflogwr o £338,000 (2015-16: £347,000) yn daladwy i'r PGPGS ar un o bedair graddfa rhwng 20.0% a 24.5% o gyflog pensiynadwy, yn seiliedig ar fandiau cyflog. Mae Actiwari'r Cynllun yn adolygu cyfraniadau'r cyflogwr, gan amlaf bob pedair blynedd, yn dilyn prisiant llawn o'r cynllun. Mae graddfeydd y cyfraniadau yn adlewyrchu buddiannau a gronnwyd yn ystod 2016-17 i'w talu ar ymddeoliad yr aelod, nid y buddiannau a dalwyd yn ystod y cyfnod hwn i bensiynwyr presennol.

Gall swyddogion ddewis agor cyfrif pensiwn partneriaeth, cynllun pensiwn rhanddeiliad â chyfraniad cyflogwr. Talwyd cyfraniadau'r cyflogwr o £3,000 (2015-16: £9,000) i un neu fwy o banel o dri o ddarparwyr pensiwn rhanddeiliad penodedig. Mae cyfraniadau'r cyflogwr yn ddibynnol ar oedran ac ar raddfa rhwng 8.0% a 14.75% o gyflog pensiynadwy. Mae'r cyflogwr hefyd yn rhoi cyfraniad cyfatebol o hyd at 3% o gyflog pensiynadwy. Yn ogystal roedd cyfraniadau cyflogwr o £150 (2015-16: £300), 0.5% o gyflog pensiynadwy, yn daladwy i PGPGS i warchod rhag cost darparu yn y dyfodol am gyfandaliadau buddiant marwolaeth mewn swydd neu ymddeoliad o achos afiechyd y cyflogeion hyn.

Pensions

Details of pensions are included on pages 131 to 137.

The Principal Civil Service Pension Scheme (PCSPS) is an unfunded multi-employer defined benefit scheme but the Welsh Language Commissioner is unable to identify its share of the underlying assets and liabilities. The scheme actuary valued the scheme as at 31 March 2012. You can find details in the resource accounts of the Cabinet Office: Civil Superannuation (www.civilservice.gov.uk/pensions).

For 2016-17, employers' contributions of £338,000 (2015-16: £347,000) were payable to the PCSPS at one of four rates in the range 20.0% to 24.5% of pensionable pay, based on salary bands. The Scheme Actuary reviews employer contributions usually every four years following a full scheme valuation. The contribution rates are set to meet the cost of the benefits accruing during 2016-17 to be paid when the member retires and not the benefits paid during this period to existing pensioners.

Employees can opt to open a partnership pension account, a stakeholder pension with an employer contribution. Employers' contributions of £3,000 (2015-16: £9,000) were paid to one or more of the panel of three appointed stakeholder pension providers. Employer contributions are age-related and range from 8.0% to 14.75% of pensionable pay. Employers also match employee contributions up to 3% of pensionable pay. In addition, employer contributions of £150 (2015-16: £300), 0.5% of pensionable pay was payable to the PCSPS to cover the cost of the future provision of lump sum benefits on death in service or ill health retirement of these employees.

Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

Yn unol ag Atodlen 1 Paragraff 18(1), Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, mae'n ofynnol i Gomisiynydd y Gymraeg lunio cyfrifon o ran pob blwyddyn ariannol yn unol â chyfarwyddiadau a roddir, gyda chydsyniad Trysorlys EM, gan Weinidogion Cymru.

Llunnir y cyfrifon ar sail groniadol, ac mae'n rhaid iddynt roi darlun gwir a theg o sefyllfa'r Comisiynydd ar ddiwedd y cyfnod, ac o'r gwariant net, newidiadau yn ecwiti'r trethdalwr a'r llifoedd arian am y flwyddyn.

Wrth baratoi'r cyfrifon mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion y Government Financial Reporting Manual ac yn arbennig i:

- ufuddhau i'r cyfarwyddyd cyfrifon a roddwyd gan Weinidogion Cymru, gan gynnwys y gofynion perthnasol o ran cadw cyfrifon a datgeliadau, a gweithredu polisïau cyfrifo perthnasol a'u defnyddio'n gyson;
- llunio penderfyniadau ac amcangyfrifon mewn modd rhesymol;
- datgan a gadwyd at y safonau cyfrifo perthnasol a osodwyd yn y Government Financial Reporting Manual, a datgelu ac esbonio unrhyw wyro materol a welir yn y cyfrifon; a
- llunio cyfrifon ar sail bod yn fusnes gweithredol.

Yn unol ag Atodlen 1 Paragraff 16(1), Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, y Comisiynydd yw'r Swyddog Cyfrifyddu.

Mae cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys cyfrifoldeb am sicrhau priodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n atebol amdano, tros gadw cofnodion priodol ac i warchod asedau Comisiynydd y Gymraeg, wedi eu nodi yn y memorandwm, Managing Public Money, a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM a Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Fel Swyddog Cyfrifyddu gallaf gadarnhau:

- hyd y gwn, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr yr endid yn ymwybodol ohonynt;
- fy mod wedi cymryd pob cam y dylwn fod wedi ei gymryd i wneud fy hun yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod archwilwyr yr endid yn ymwybodol o'r wybodaeth honno; a
- bod yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon hyn yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy a fy mod yn cymryd cyfrifoldeb personol amdanynt ac am y farn sydd ei hangen er mwyn pennu eu bod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.



Meri Huws

Swyddog Cyfrifyddu,
Comisiynydd y Gymraeg

15 Awst 2017

Statement of the Accounting Officer's Responsibilities

Under Schedule 1 Paragraph 18(1) of the Welsh Language (Wales) Measure 2011, the Welsh Language Commissioner is required to prepare accounts in respect of each financial year in accordance with directions given, with the consent of HM Treasury, by the Welsh Ministers.

The accounts are prepared on an accruals basis and must give a true and fair view of the Commissioner's state of affairs at the period end and its net expenditure, changes in taxpayers' equity and cash flows for the year.

In preparing the accounts the Accounting Officer is required to comply with the requirements of the Government Financial Reporting Manual and in particular to:

- observe the accounts direction issued by the Welsh Ministers, including the relevant accounting and disclosure requirements, and apply suitable accounting policies on a consistent basis;
- make judgements and estimates on a reasonable basis;
- state whether applicable accounting standards as set out in the Government Financial Reporting Manual have been followed, and disclose and explain any material departures in the accounts; and
- prepare the accounts on a going concern basis.

In accordance with Schedule 1 Paragraph 16(1) of the Welsh Language (Wales) Measure 2011 the Commissioner is the Accounting Officer.

The responsibilities of an Accounting Officer, including responsibility for the propriety and regularity of the public finances for which the Accounting Officer is answerable, for keeping proper records and for safeguarding the Welsh Language Commissioner's assets, are set out in the memorandum, Managing Public Money, published by HM Treasury and Managing Welsh Public Money, published by the Welsh Government.

As Accounting Officer, I confirm that:

- as far as I am aware, there is no relevant audit information of which the entity's auditors are unaware;
- I have taken all the steps that I ought to have taken to make myself aware of any relevant audit information and to establish that the entity's auditors are aware of that information; and
- this annual report and accounts as a whole is fair, balanced and understandable and that I take personal responsibility for this annual report and accounts and the judgments required for determining that it is fair, balanced and understandable.



Meri Huws

Accounting Officer,
Welsh Language Commissioner

15 August 2017

Tystysgrif ac Adroddiad archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru

Ardystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Comisiynydd y Gymraeg am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017 o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae'r rhain yn cynnwys y Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr, y Datganiad ar y Sefyllfa Ariannol, y Datganiad Llif Arian Parod a'r Datganiad o Newidiadau o ran Ecwiti Trethdalwyr a'r nodiadau cysylltiedig. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisïau cyfrifyddu a nodir ynddynt. Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth y nodir ei bod wedi'i harchwilio yn yr adroddiad hwnnw.

Priod gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu a'r archwilydd

Fel yr eglurir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol, yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a chyfarwyddiadau a wnaed gan Weinidogion Cymru o dan y Mesur hwnnw, ac am sicrhau rheoleidd-dra'r trafodion ariannol.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio ac ardystio'r datganiadau ariannol a chyflwyno adroddiad arnynt yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i mi gydymffurfio â Safonau Moesegol y Cyngor Adroddiadau Ariannol ar gyfer Archwilwyr.

Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

Cynhelir archwiliad er mwyn cael tystiolaeth ddigonol o'r symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol i roi sicrwydd rhesymol nad oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol, boed hynny drwy dwyll neu wall. Mae hyn yn cynnwys asesu'r canlynol: pa un a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau Comisiynydd y Gymraeg a pha un a ydynt wedi'u cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymoldeb amcangyfrifon cyfrifyddu arwyddocaol a wnaed gan Gomisiynydd y Gymraeg; a'r ffordd y cyflwynwyd y datganiadau ariannol yn gyffredinol.

Mae hefyd yn ofynnol i mi gael tystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm wedi'u cymhwyso at y dibenion y'u bwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Yn ogystal, darllenaf yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn y Adroddiad Blynyddol er mwyn nodi anghysondebau perthnasol â'r datganiadau ariannol archwiliedig a nodi unrhyw wybodaeth sy'n ymddangos fel petai'n berthnasol anghywir ar sail y wybodaeth a ddaeth i law wrth i mi gyflawni'r archwiliad neu sy'n berthnasol anghyson â'r wybodaeth honno. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol amlwg, ystyriaf y goblygiadau i'm hadroddiad.

The Certificate and Report of the Auditor General for Wales, to the National Assembly for Wales

I certify that I have audited the financial statements of the Welsh Language Commissioner for the year ended 31 March 2017 under the Welsh Language (Wales) Measure 2011. These comprise the Statement of Comprehensive Net Expenditure, Statement of Financial Position, Statement of Cash Flows, and Statement of Changes in Taxpayers Equity and related notes. These financial statements have been prepared under the accounting policies set out within them. I have also audited the information in the Remuneration Report that is described in that report as having been audited.

Respective responsibilities of the Accounting Officer and auditor

As explained more fully in the Statement of Accounting Officer's Responsibilities, the Accounting Officer is responsible for preparing the financial statements, in accordance with the Welsh Language (Wales) Measure 2011 and Welsh Ministers' directions made there under and for ensuring the regularity of financial transactions.

My responsibility is to audit, certify and report on the financial statements in accordance with applicable law and with International Standards on Auditing (UK and Ireland). These standards require me to comply with the Financial Reporting Council's Ethical Standards for Auditors.

Scope of the audit of the financial statements

An audit involves obtaining evidence about the amounts and disclosures in the financial statements sufficient to give reasonable assurance that the financial statements are free from material misstatement, whether caused by fraud or error. This includes an assessment of: whether the accounting policies are appropriate to the Welsh Language Commissioner's circumstances and have been consistently applied and adequately disclosed; the reasonableness of significant accounting estimates made by the Welsh Language Commissioner; and the overall presentation of the financial statements.

In addition, I am required to obtain evidence sufficient to give reasonable assurance that the expenditure and income have been applied to the purposes intended by the National Assembly for Wales and the financial transactions conform to the authorities which govern them.

In addition I read all the financial and non-financial information in the Annual Report to identify material inconsistencies with the audited financial statements and to identify any information that is apparently materially incorrect based on, or materially inconsistent with, the knowledge acquired by me in the course of performing the audit. If I become aware of any apparent material misstatements or inconsistencies I consider the implications for my certificate and report.

Barn ar y Datganiadau Ariannol

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa Comisiynydd y Gymraeg ar 31 Mawrth 2017 a'i gwariant net am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a gyhoeddwyd o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Barn ar Reoleidd-dra

Yn fy marn i, mae'r gwariant a'r incwm a nodir yn y datganiadau ariannol wedi eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ymhob ffordd berthnasol ac mae'r trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i:

- mae'r rhan o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth i'w harchwilio wedi ei pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wnaed o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011; ac
- mae'r wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol yn gyson â'r datganiadau ariannol.

Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- nid yw'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Gweinidogion Cymru;
- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu priodol;
- nid yw'r datganiadau ariannol na'r rhan o'r Adroddiad Taliadau Cydnabyddiaeth sydd i'w harchwilio, yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu;
- ni ddatgelwyd gwybodaeth a ddynodwyd gan Weinidogion Cymru o ran cydnabyddiaeth a thrafodion eraill; neu
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

Opinion on Financial Statements

In my opinion the financial statements:

- give a true and fair view of the state of the Welsh Language Commissioner's affairs as at 31 March 2017 and of its net expenditure for the year then ended; and
- have been properly prepared in accordance with Welsh Ministers' directions issued under the Welsh Language (Wales) Measure 2011.

Opinion on Regularity

In my opinion, in all material respects, the expenditure and income in the financial statements have been applied to the purposes intended by the National Assembly for Wales and the financial transactions recorded in the financial statements conform to the authorities which govern them.

Opinion on other matters

In my opinion:

- the part of the Remuneration Report to be audited has been properly prepared in accordance with Welsh Ministers' directions made under the Welsh Language (Wales) Measure 2011; and
- the information in the Annual Report is consistent with the financial statements.

Matters on which I report by exception

I have nothing to report in respect of the following matters which I report to you if, in my opinion:

- the Annual Governance Statement does not reflect compliance with Welsh Ministers';
- proper accounting records have not been kept;
- the financial statements and the part of the Remuneration Report to be audited are not in agreement with the accounting records and returns;
- information specified by Welsh Ministers regarding the remuneration and other transactions is not disclosed; or
- I have not received all of the information and explanations I require for my audit.

Adroddiad

Nid oes gennyf sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Cyfrifoldeb y Comisiynydd yw i gynnal a chadw a sicrhau uniondeb gwefan Comisiynydd y Gymraeg; nid yw gwaith sydd yn cael ei gynnal gan yr archwilwyr yn ymwneud ag ystyried y materion hyn, ac o ganlyniad, nid yw'r archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb dros unrhyw newidiadau a allai fod wedi digwydd i'r datganiadau ariannol ers cael eu cyhoeddi gyntaf ar y wefan.

Huw Vaughan Thomas
Archwilydd Cyffredinol Cymru
30 Awst 2017

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Report

I have no observations to make on these financial statements.

The Auditor General for Wales has certified and reported on these accounts in their original form. This version is a translation of the original Welsh version. The responsibility for the accuracy of this translation lies with the Welsh Language Commissioner, and not with the Auditor General.

The maintenance and integrity of the Welsh Language Commissioner's website is the responsibility of the Commissioner; the work carried out by the auditors does not involve consideration of these matters and accordingly the auditors accept no responsibility for any changes that may have occurred to the financial statements since they were initially presented on the website.

Huw Vaughan Thomas
Auditor General for Wales
30 August 2017

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff
CF11 9LJ

Datganiadau Ariannol

Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr 154

Datganiad Sefyllfa Ariannol 156

Datganiad Llifoedd Arian 158

Datganiad Newidiadau yn Ecwiti'r Trethdalwyr 160

Nodiadau'r Cyfrifon 162

Financial Statements

Statement of Comprehensive Net Expenditure 155

Statement of Financial Position 157

Statement of Cash Flows 159

Statement of Changes in Taxpayers' Equity 161

Notes to the Accounts 163

Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2017

	Nodiadau	2016-17 £000	2016-17 £000	2015-16 £000	2015-16 £000
Gwariant					
Costau swyddogion		**2,112**		2,196	
Gweinyddu	4	**748**		845	
Grantiau		**-**		60	
Gwariant rhaglenni eraill	5	**221**		233	
Dibrisiant ac amorteiddiad	6,7	**44**		67	
			3,125		3,401
Incwm	3		**(69)**		-
Gwariant net			**3,056**		3,401
Llog a dderbyniwyd			**(1)**		(1)
Gwariant net ar ôl llog			**3,055**		3,400

Mae'r holl weithgareddau a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn yn parhau.

Ceir manylion costau swyddogion yn yr Adroddiad ar Daliadau Cydnabyddiaeth ac Adroddiad Staff ar dudalennau 124 i 142.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 162 i 182 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Statement of Comprehensive Net Expenditure for the year ended 31 March 2017

	Notes	2016-17 £000	2016-17 £000	2015-16 £000	2015-16 £000
Expenditure					
Officers' costs		**2,112**		2,196	
Administration	4	**748**		845	
Grants		**-**		60	
Other programme expenditure	5	**221**		233	
Depreciation and amortisation	6,7	**44**		67	
			3,125		3,401
Income	3		**(69)**		-
Net expenditure			**3,056**		3,401
Interest receivable			**(1)**		(1)
Net expenditure after interest			**3,055**		3,400

All activities undertaken during the year are continuing.

Details of officers' costs are included in the Remuneration and Staff Report on pages 125 to 143.

The notes on pages 163 to 183 form part of these accounts.

Datganiad Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2017

	Nodiadau	31 Mawrth 2017 £000	31 Mawrth 2017 £000	31 Mawrth 2016 £000	31 Mawrth 2016 £000
Asedau nad ydynt yn gyfredol					
Asedau anghyffyrddadwy	6	**11**		18	
Eiddo, offer a pheiriannau	7	**83**		102	
Cyfanswm asedau nad ydynt yn gyfredol			**94**		120
Asedau cyfredol					
Masnach a symiau eraill sy'n dderbyniadwy	8	**106**		142	
Arian parod ac arian cywerth	9	**1,003**		954	
Cyfanswm asedau cyfredol			**1,109**		1,096
Cyfanswm asedau			**1,203**		1,216
Rhwymedigaethau cyfredol					
Masnach a symiau eraill sy'n daladwy	10	**(330)**		(337)	
Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol			**(330)**		(337)
Cyfanswm asedau nad ydynt yn gyfredol ac asedau cyfredol net			**873**		879
Rhwymedigaethau nad ydynt yn gyfredol					
Darpariaethau	11	**(174)**		(176)	
Cyfanswm rhwymedigaethau nad ydynt yn gyfredol			**(174)**		(176)
Asedau llai rhwymedigaethau			**699**		703
Ecwiti'r trethdalwyr					
Cronfa gyffredinol			**699**		703
			699		703

Mae'r nodiadau ar dudalennau 162 i 182 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Mae'r datganiadau ariannol ar dudalennau 154 i 160 wedi eu cymeradwyo gan y Swyddog Cyfrifyddu ac wedi eu llofnodi gan:

Meri Huws

Meri Huws
Swyddog Cyfrifyddu
Comisiynydd y Gymraeg
15 Awst 2017

Statement of Financial Position as at 31 March 2017

	Nodiadau	31 March 2017 £000	31 March 2017 £000	31 March 2016 £000	31 March 2016 £000
Non-Current assets					
Intangible assets	6	**11**		18	
Property, plant & equipment	7	**83**		102	
Total non-current assets			**94**		120
Current assets					
Trade and other receivables	8	**106**		142	
Cash and cash equivalents	9	**1,003**		954	
Total current assets			**1,109**		1,096
Total assets			**1,203**		1,216
Current liabilities					
Trade and other payables	10	**(330)**		(337)	
Total current liabilities			**(330)**		(337)
Non-current assets plus net current assets			**873**		879
Non-current liabilities					
Provisions	11	**(174)**		(176)	
Total non-current liabilities			**(174)**		(176)
Assets less liabilities			**699**		703
Taxpayers' equity					
General reserve			**699**		703
			699		703

The notes on pages 163 to 183 form part of these accounts.

The financial statements on pages 155 to 161 were approved by the Accounting Officer and signed by:

Meri Huws

Meri Huws
Accounting Officer
Welsh Language Commissioner
15 August 2017

Datganiad Llifoedd Arian am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2017

	Nodiadau	**2016-17 £000**	2015-16 £000
Llifoedd arian o weithgareddau gweithredu			
Gwariant net		**(3,056)**	(3,401)
Amorteiddiad ar asedau anghyffyrddadwy	6	**8**	21
Dibrisiant ar eiddo, offer a pheiriannau	7	**36**	46
Colled ar werthiant asedau nad ydynt yn gyfredol		**-**	-
Lleihad / (Cynnydd) mewn derbyniadau masnach ac asedau cyfredol eraill	8	**36**	(6)
(Lleihad) / Cynnydd mewn taliadau masnach a thaliadau eraill	10	**(7)**	(275)
(Lleihad) / Cynnydd mewn darpariaethau	11	**(2)**	6
(All-lif) arian net o weithgareddau gweithredu		**(2,985)**	(3,609)
Llifoedd arian o weithgareddau buddsoddi			
Llog a dderbyniwyd		**1**	1
Taliad i gaffael asedau anghyffyrddadwy	6	**(1)**	-
Taliad i gaffael eiddo, offer a pheiriannau	7	**(17)**	(21)
Derbyniadau am werthiant eiddo, offer a pheiriannau		**-**	-
(All-lif) arian net o weithgareddau buddsoddi		**(17)**	(20)
Llifoedd arian o weithgareddau cyllido			
Cyllido gan Weinidogion Cymru		**3,051**	3,540
Cyllido net		**3,051**	3,540
Cynnydd / (Lleihad) net mewn arian parod ac arian cywerth		**49**	(89)
Arian parod ac arian cywerth ar ddechrau'r cyfnod	9	**954**	1,043
Arian parod ac arian cywerth ar ddiwedd y cyfnod	9	**1,003**	954

Mae'r nodiadau ar dudalennau 162 i 182 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Statement of Cash Flows for the year ended 31 March 2017

	Notes	**2016-17 £000**	2015-16 £000
Cash flows from operating activities			
Net expenditure		**(3,056)**	(3,401)
Amortisation of intangible assets	6	**8**	21
Depreciation of property, plant & equipment	7	**36**	46
Loss on sale of non-current assets		**-**	-
Decrease / (Increase) in trade and other receivables	8	**36**	(6)
(Decrease) / Increase in trade payables and other payables	10	**(7)**	(275)
(Decrease) / Increase in provisions	11	**(2)**	6
Net cash (outflow) from operating activities		**(2,985)**	(3,609)
Cash flows from investing activities			
Interest received		**1**	1
Purchase of intangible assets	6	**(1)**	-
Purchase of property, plant and equipment	7	**(17)**	(21)
Proceeds of disposal of property, plant and equipment		**-**	-
Net cash (outflow) from investing activities		**(17)**	(20)
Cash flows from financing activities			
Financing from Welsh Ministers		**3,051**	3,540
Net financing		**3,051**	3,540
Net increase / (decrease) in cash and cash equivalents in the period		**49**	(89)
Cash and cash equivalents at the beginning of the period	9	**954**	1,043
Cash and cash equivalents at the end of the period	9	**1,003**	954

The notes on pages 163 to 183 form part of these accounts.

Datganiad Newidiadau yn Ecwiti'r Trethdalwyr ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2017

	£000
Balans ar 1 Ebrill 2015	563
Newidiadau mewn cronfeydd ar gyfer 2015-16	
(Diffyg) a gadwyd	(3,400)
Cyfanswm incwm a gwariant a gydnabyddir ar gyfer 2015-16	(3,400)
Cyllido gan Weinidogion Cymru	3,540
Balans ar 31 Mawrth 2016	**703**
Newidiadau mewn cronfeydd ar gyfer 2016-17	
(Diffyg) a gadwyd	(3,055)
Cyfanswm incwm a gwariant a gydnabyddir ar gyfer 2016-17	(3,055)
Cyllido gan Weinidogion Cymru	3,051
Balans ar 31 Mawrth 2017	**699**

Mae'r nodiadau ar dudalennau 162 i 182 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Statement of Changes in Taxpayers' Equity for the year ended 31 March 2017

	£000
Balance at 1 April 2015	563
Changes in Reserves for 2015-16	
Retained (Deficit)	(3,400)
Total recognised income and expense for 2015-16	(3,400)
Financing from Welsh Ministers	3,540
Balance at 31 March 2016	**703**
Changes in Reserves for 2016-17	
Retained (Deficit)	(3,055)
Total recognised income and expense for 2016-17	(3,055)
Financing from Welsh Ministers	3,051
Balance at 31 March 2017	**699**

The notes on pages 163 to 183 form part of these accounts.

Nodiadau'r cyfrifon am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2017

Lluniwyd y cyfrifon hyn yn unol â Government Financial Reporting Manual (FReM) 2016-17 a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM, ac unrhyw Gyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru, gyda chaniatâd y Trysorlys. Mae'r polisïau cyfrifyddol a gynhelir yn y FReM yn gweithredu Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS), wedi eu haddasu neu eu dehongli ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Lle bo'r FReM yn caniatáu dewis polisi cyfrifyddol, dewiswyd y polisi cyfrifyddol a ystyrir fwyaf addas ar gyfer amgylchiadau neilltuol Comisiynydd y Gymraeg, er mwyn rhoi barn gywir a theg. Disgrifir isod y polisïau neilltuol a ddilynwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg. Fe'u gweithredwyd yn gyson wrth ddelio â'r eitemau a ystyrir yn berthnasol i'r cyfrifon.

1 Datganiad polisïau cyfrifo

(1.1) Confensiynau cyfrifo

Lluniwyd y cyfrifon hyn yn unol â'r confensiwn cost hanesyddol. Nid yw'r Comisiynydd wedi ailbrisio unrhyw eiddo, offer a pheiriannau nac unrhyw asedau anghyffyrddadwy gan nad yw addasiadau ailbrisio, ym marn y Comisiynydd, yn sylweddol.

(1.2) Cyllido

Mae Comisiynydd y Gymraeg yn derbyn symiau gan Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â gwariant a dynnir wrth gyflawni'r swyddogaethau. Ystyrir y symiau hyn yn rhai ariannu ac fe'u credydir i'r Gronfa Gyffredinol adeg eu derbyn.

(1.3) Incwm

Caiff incwm ei gydnabod yn y flwyddyn ariannol y darperir y gwasanaeth. Mae incwm sydd wedi ei anfonebu cyn bod y gwasanaeth wedi ei ddarparu yn cael ei drin fel incwm gohiriedig.

(1.4) Asedau anghyffyrddadwy

Mae asedau sefydlog anghyffyrddadwy dros £1,000, gan gynnwys TAW anadferadwy, yn cael eu cyfalafu. Mae asedau anghyffyrddadwy yn cynnwys trwyddedau meddalwedd cyfrifiadurol a thrwyddedau eraill. Grwpiwyd nifer o asedau o'r un math gyda'i gilydd wrth bennu a ydynt uwchben neu o dan y trothwy.

Cynhwysir asedau sefydlog anghyffyrddadwy ar eu cost hanesyddol. Nid yw'r asedau sefydlog anghyffyrddadwy wedi eu hailbrisio, gan na fyddai'r addasiadau o ailbrisio yn sylweddol.

Notes to the accounts for the year ended 31 March 2017

These financial statements have been prepared in accordance with the 2016-17 Government Financial Reporting Manual (FReM) issued by HM Treasury, and any Accounts Direction issued by Welsh Ministers, with the consent of the Treasury. The accounting policies contained in the FReM apply International Financial Reporting Standards (IFRS) as adapted or interpreted for the public sector context. Where the FReM permits a choice of accounting policy, the accounting policy which is judged to be most appropriate to the particular circumstance of the Welsh Language Commissioner, for the purpose of giving a true and fair view, has been selected. The particular policies adopted by the Welsh Language Commissioner are described below. They have been applied consistently in dealing with items that are considered material to the accounts.

1 Statement of accounting policies

(1.1) Accounting conventions

The accounts have been prepared under the historical cost convention. The Commissioner did not re-value any property, plant and equipment or intangible assets as any revaluation adjustments were not, in the Commissioner's opinion, material.

(1.2) Funding

The Welsh Language Commissioner receives amounts in respect of expenditure incurred in carrying out functions. These amounts are regarded as financing and are credited to the General Reserve on receipt.

(1.3) Income

Income is recognised in the financial year that the service is provided. Income invoiced in advance of the service being provided is classed as deferred income.

(1.4) Intangible assets

